

Tel / Ffôn: 01495 311556

Email / E-bost: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

Our Ref. / Ein Cyf. SR/JC

Your Ref. / Eich Cyf.

Date. / Dyddiad. 2nd March 2026

Annwyl Ymgynghorai,

Mae Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cytuno i ddechrau ymgynghoriad ffurfiol ar Gymuned Ddysgu Abertyleri.

Mae'r ddogfen ymgynghori yng nghyswllt y cynnig ar gael ar wefan Cyngor Blaenau Gwent. Mae'r ddolen yma: <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/council/consultations/proposal-to-reduce-the-capacity-at-abertillery-learning-community-primary-phase>

Bydd y cyfnod ymgynghori yn cychwyn **Ddydd Llun 2 Mawrth 2026** ac yn dod i ben **Ddydd Mawrth 14 Ebrill 2026**. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ymgynghoreion gael o leiaf 42 diwrnod i ymateb i'r ddogfen ymgynghori, gydag o leiaf 20 o'r dyddiau hyn yn ddyddiau ysgol.

Gellir gwneud unrhyw sylwadau ar y cynnig:

- Drwy e-bost i: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk
- neu bostio i: y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glyn Ebwy NP23 6DN
- Neu drwy'r ddolen islaw: <https://online1.snapsurveys.com/n94ji6>

Mae'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg wedi cynllunio cyfarfodydd rhithwir gyda'r undebau llafur a sesiwn galw heibio isod ar gyfer pob corff llywodraethu'r ysgolion yr effeithir arnynt, staff, rhieni disgyblion a'r gymuned ehangach drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Sesiynau heb apwyntiad:

- CDdA – Campws Uwchradd, Stryd Alma, Abertyleri NP13 1YL Dydd Mawrth 10 Mawrth 2026 3:30pm – 4:30pm a Staff
- CDdA – Campws Uwchradd, Stryd Alma, Abertyleri NP13 1YL Dydd Mawrth 10 Mawrth 2026 5:00pm – 6:00pm Corff Llywodraethu
- Y Metropole, Abertyleri NP13 1LA Dydd Mercher 11 Mawrth 2026 3:00pm – 6:30pm Rhieni a'r Gymuned Ehangach
- Y Metropole, Abertyleri NP13 1LA Dydd Mawrth 17 Mawrth 2026 3:00pm – 6:30pm Rhieni a'r Gymuned Ehangach
- Cyfarfod rhithwir ar Teams Dydd Mercher 17 Mawrth 2026 1:00pm - 2:00pm Cynrychiolwyr Undebau Llafur

Bydd Tîm Adnoddau Addysg a Chynllunio y Cyngor yn sicrhau bod pob sylw/golwg a wneir yn cael ei gofnodi er mwyn galluogi gwneud penderfyniadau gwybodus ar yr adeg briodol.

Er hwylustod cyfeirio, cysylltir y ddogfen ymgynghori yn electronig. Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach neu gopiâu papur o'r dogfennau arnoch, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi ar y cyfeiriad e-bost uchod.

Dymuniadau gorau,

Pennaeth addysg Adnoddau a Chynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn cyfathrebu gyda chi yn eich dewis iaith, dim ond i chi rhoi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi.

The Council welcomes correspondence in Welsh and English and we will communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to any delay.